

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Mai 12fed 2015 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Jean Roberts, Arwel Davies, Geraint Jones, Geraint Davies, Gwynedd Jones, Gwynfryn Williams a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rhys Richards, Gwilym Davies, Euros Puw a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Cyfarfod Blynyddol.

Ethol cadeirydd ac is-gadeirydd.

Croesawyd Geraint Davies i'r gadair a diolchwyd i Jean Roberts am ei gwaith caled dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Etholwyd Gwynedd Jones yn is-gadeirydd.

Cyfrifon 2014-15.

Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2014-15 gan y clerc, a chafwyd hwy yn gywir.

Archwiliad Mewnol y Cyngor.

Adolygwyd trefniadau archwiliad mewnol y Cyngor a chafwyd yn gywir. Adroddodd y clerc bod y Ffurflen Archwiliad Blynyddol wedi cyrraedd, cytunwyd i apwyntio John Roberts i wneud yr archwiliad mewnol fel yr arfer.

Asesiad Risg a Rheoliadau Mewnol.

Cytunwyd bod y system rheoliadau mewnol presennol yn gywir. Gofynnwyd i'r clerc ychwanegu Neuadd Gymunedol y Parc i'r asesiad risg a chytunwyd i'w chymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.

Mynediad Gwybodaeth.

Derbyniwyd amrywiaeth o ohebiaeth gan Un Llais Cymru a'r Llywodraeth ynglŷn â'r newidiadau i'r canllawiau statudol ar Fynediad at Wybodaeth. Cytunwyd bod angen dilyn y canllawiau i sicrhau bod yr wybodaeth a'r gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor. Cytunodd y clerc i wneud ymholiadau i weld ym mha fformat oedd angen cyflwyno'r wybodaeth a'r ffordd symla i'w ychwanegu i'r wefan.

Etholwyd y cynrychiolwyr canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.

Partneriaeth Penllyn: Geraint Davies ac Arwel Davies.

Llywodraethwyr Ysgol Bro Tryweryn: Geraint Davies

Cyfarfod Misol.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Llythyrau diolch.

Derbyniwyd llythyrau yn diolch am y cyfraniadau ariannol a ddosbarthwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth.

Ysgol/Neuadd Gymunedol y Parc.

Cafwyd cadarnhad gan y clerc bod gwerthiant yr adeilad a'r les rhwng y Cyngor Cymuned a'r Pwyllgor Rheoli wedi cael ei gwblhau. Roedd y newid perchnogaeth wedi cael ei gofrestru gyda'r Gofrestr Tir yn Abertawe a chytunwyd i ad dalu'r ffi cofrestru i Gyngor Gwynedd.

Safle Binau ger Pant Neuadd, Parc.

Yn dilyn cwynion dros y misoedd diwethaf roedd Cyngor Gwynedd wedi symud y binau i safle newydd gerllaw. Yn anffodus nid oedd y safle newydd yn ymarferol a chytunwyd i drefnu cyfarfod gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i geisio datrys y broblem. Trafodwyd y cwynion diweddaraf am y sbwriel sy'n cael ei adael ar hyd y ffyrdd gweledig gan y lori ailgylchu a chytunwyd i ddod a'r mater yma i sylw'r swyddogion hefyd.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn/ Pum Plwy Penllyn

i) Derbyniwyd copi o gofnodion y cyfarfod diwethaf.

b) Cyngor Gwynedd

i) Derbyniwyd copi o waharddiad trafnidiaeth trwodd dros dro a oedd yn ymwneud a gwaith BT ger pentref Rhydychaf ym mis Ebrill.

ii) Derbyniwyd gwahoddiad i fynychu cyfarfod 'Her Gwynedd' yn y Bala, 9/6/15 i drafod y sefyllfa ariannol ac adnabod cyfleoedd ble gall cymunedau ystyried redeg gwasanaethau yn wahanol. Cytunodd Jean Roberts a Gwynfryn Williams fynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor.

iii) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Mai.

c) Un Llais Cymru.

i) Copi diweddaraf 'Y Llais'.

ii) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yng Nghanolfan yr Henblas, Bala ar y 13/5/15.

iv) Derbyniwyd copi o ymateb Un Llais Cymru i'r Papur Gwyn, Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.

ch) Llywodraeth Cymru.

i) Derbyniwyd llythyr yn trafod pwysigrwydd treftadaeth ein hardal ac yn ein cynghori o ddigwyddiadau dros y misoedd nesaf i roi cyfleoedd i aelodau o'r gymuned leol ymweld â safleoedd treftadaeth. Tynnwyd ein sylw yn arbennig i Gapeli Llangar a Rug.

d) Amrywiol

i) Mynyddoedd Pawb – Derbyniwyd gwybodaeth am y ddeiseb i annog Llywodraeth Cymru i ddarbwylllo cyrff a sefydliadau i ddiogelu a pharchu ein cyfoeth o enwau lleoedd.

ii) Ombwdsmon - Derbyniwyd gwybodaeth ynglŷn â'r cyfarwyddyd diwygiedig ar y Cod Ymddygiad a gafodd eu cyhoeddi ym mis Ebrill.

Materion Ariannol.

Derbyniwyd rhandal cyntaf y Praesept - £1,650

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Zurich (Yswiriant)

Cyngor Gwynedd (cost cofrestru Neuadd Gymunedol y Parc gyda'r Gofrestr Tir)

Cais ariannol.

Derbyniwyd llythyr gan y grŵp 'Ffrindiau Neuadd Buddug' yn gofyn am gefnogaeth ariannol i'w hymgyrch i brynu offer i sicrhau dyfodol y neuadd. Roedd y cynghorwyr yn gefnogol iawn ond gofynnwyd i'r clerics gysylltu yn nol i egluro bod y Cyngor ddim ond yn gwneud cyfraniadau ariannol ym mis Mawrth.

Materion Lleol.

Coed mynwent Tal y Bont, Rhyduchaf.

Derbyniwyd cwynion bod canghennau'r coed yn dod drosodd i'r ffordd ac yn creu trafferth i loriau a oedd yn pasio. Gofynnwyd i'r clerc basio'r sylwadau ymlaen i ysgrifennydd y capel.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos
Fawrth, Mehefin 9fed yn Neuadd
Maesywaen am 8.00y.h.